**Tai Conwy | Strategaeth Rhaglen Cymorth**

**Atodiad A - Cynllun Gweithredu Blaenoriaethau Strategol 2023/24**

**Blaenoriaeth 1: Symud tuag at ddull Ailgartrefu Cyflym wrth ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd**

| Rhif. | Cam Gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Rhoi Cynllun Gweithredu'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar waith ar gyfer blynyddoedd 1 a 2 | Cyfrannu at gamau perthnasol yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym | Grŵp Strategol Ailgartrefu Cyflym | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Adroddiad cynnydd |

**Blaenoriaeth 2: Cryfhau ein gwaith partneriaeth i sicrhau bod anghenion cymorth pobl yn cael eu bodloni, a'n bod yn ymdrin ag anghenion mwy cymhleth/dwys drwy ddarparu cymorth amlasiantaethol**

| Nifer | Cam Gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Ystyried sut y gellid mynd i'r afael ag anghenion cymorth y tu hwnt i anghenion tai drwy waith amlasiantaeth gwell | Mapio darpariaeth bresennol a nodi bylchau | Grŵp Strategol Ailgartrefu Cyflym | Amser staff mewnol ac allanol | Mawrth 2024 | Caiff bylchau mewn darpariaeth eu nodi a'u datrys |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.2 | | Ymgysylltu â phartneriaid allweddol ac ystyried fformat ar gyfer Panel Anghenion Cymhleth amlasiantaeth ar gyfer ymyrraeth gynnar a chefnogaeth amlasiantaeth | Grŵp Strategol Ailgartrefu Cyflym | Amser staff mewnol ac allanol | Mawrth 2024 | Datblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus allweddol i alluogi ymrwymiadau cadarnhaol ar gyfer cydweithio ar faterion sy'n ymwneud ag anghenion cymhleth |
| 2.3 | | Cefnogi darparwyr i ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff presennol i sicrhau bod gwasanaethau'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn ystyriol o drawma ac yn gallu addasu i anghenion newidiol defnyddwyr gwasanaeth | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Staff cymwys sydd â phrofiad priodol |
| 2.4 | | Cefnogi darparwyr i ddatblygu perthnasoedd gwaith cryf gydag asiantaethau partner perthnasol | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i fodloni anghenion pobl |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.5 | | Ystyried yr angen am ddarparwyr cymorth arbenigol | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Nodir yr angen am ddarpariaeth arbenigol |
| 2.6 | Sicrhau y cedwir data cynhwysol am anghenion pobl | Adolygu'r systemau a ddefnyddir i gasglu data am anghenion pobl i sicrhau y gellir nodi bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Medi 2023 | Caiff anghenion cymorth eu casglu a gellir eu defnyddio i lywio cynlluniau gwasanaeth |
| 2.7 | | Monitro'r Fframwaith Canlyniadau newydd | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | O Ebrill 2023 | Mae gwasanaethau'n bodloni'r anghenion a nodwyd a gellir dangos gwerth am arian |
| 2.8 | Adolygu gwasanaethau Grant Cymorth Tai presennol yn erbyn anghenion a nodwyd i alluogi gwaith ail-fodelu ac ail-gomisiynu | Blaenoriaethu adolygiadau gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a gwasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen generig | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Mae gwasanaethau a gomisiynir yn gallu bodloni ystod eang o anghenion |
| 2.9 | | Ystyried sut gellir comisiynu gwasanaethau i sicrhau parhad cefnogaeth | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Ionawr 2024 | Mae cefnogaeth yn gallu symud gyda'r unigolyn lle bo angen |

**Blaenoriaeth 3: Darparu gwasanaethau ychwanegol i bobl sy’n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig**

| Rhif. | Cam Gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Gweithio gyda Thîm Rhanbarthol VAWDASV a gwasanaethau presennol i nodi’r angen am wasanaethau ychwanegol | Adolygu’r sefyllfa bresennol, ar ôl nodi anghenion a bylchau | Grwpiau Cynllunio’r Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2025 | Mae gwasanaethau wedi’u llywio gan drawma, wedi’u targedu ac yn bodloni anghenion pobl sy’n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig |

**Blaenoriaeth 4: Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd**

| Rhif. | Cam Gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Adolygu gwasanaethau a gomisiynwyd i bobl ifanc | Datblygu cynllun i fodloni’r angen a nodwyd | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Mae gwasanaethau a gomisiynir yn bodloni’r anghenion a nodwyd |
| 4.2 | Adolygu’r gwaith a gefnogir gan y Grant Plant a Chymunedau | Creu cysylltiadau â’r prosiectau Grant Cymorth Tai a ariannir | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Mae’r gwasanaethu a ddarperir gan y ddwy ffrwd ariannu’n integredig ac yn ategol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.3 | Adolygu nifer y bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac wedi profi digartrefedd | Deall a mynd i'r afael â'r achosion | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Mae nifer y bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac wedi profi digartrefedd yn lleihau |
| 4.4 | Ystyried yr ymyraethau a nodwyd ym Map Ffordd End Youth Homelessness Cymru | Gan ymgynghori â gwasanaethau eraill, cytuno ar gamau priodol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r Cyngor | Tîm Grant Cymorth Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Caiff yr ymyraethau priodol eu gweithredu |